**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Gwener, 16 Mehefin 2023 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Louise Fleet (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Cynghorwyr - Abertawe**
J E Pritchard

**Cynghorwyr - Castell-nedd Port Talbot**

| | | |
|---|---|---|
| W Carpenter | S Renkes | C Phillips |

**Sefydliadau Cysylltiedig**

| | |
|---|---|
| Andrew Dulley | Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu |
| Janet Watkins | Cymdeithas Hynafiaethwyr Castell-nedd |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Kim Collis | Archifydd Sirol |
| Craig Griffiths | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol - CNPT |
| Chris Saunders | Pennaeth Diwylliant, Hamdden, Treftadaeth a Thwristiaeth - CNPT |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr - P M Black, L R Jones, E J King, R Mizen a R V Smith a Dr L Miskell a T McNulty

---

## 1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y ddau awdurdod, datganwyd y cysylltiad canlynol:

Andrew Dulley - Eitem 5 - personol.

## 2 Croeso/Diolch.

Nododd y Cadeirydd, yn dilyn diwygiad i gyfrifoldeb portffolio yng nghyngor CNPT, nododd Craig Griffiths mai heddiw fyddai ei gyfarfod olaf.

Diolchodd iddo am ei gyfraniadau a'i gyngor i'r pwyllgor dros y blynyddoedd.

Croesawodd Chris Saunders hefyd, Pennaeth Diwylliant, Hamdden, Treftadaeth a Thwristiaeth i'w gyfarfod cyntaf.

**3 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2023 yn gofnod cywir.

**4 Ethol is-gadeiryddion ar gyfer blwyddyn y cynghorau 2023-2024.**

**Penderfynwyd** y byddai ethol Is-gadeiryddion yn cael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf.

**5 Adroddiad Archifydd y Sir.**

Cyflwynodd yr Archifydd Sirol adroddiad a oedd yn amlinellu gwaith y Gwasanaeth Archifau ar y Cyd rhwng mis Mawrth a mis Mai 2023.

<u>Y defnydd o'r gwasanaeth</u>

Adroddodd am y ffigurau sy'n ymwneud â'r defnydd o'r gwasanaeth drwy ei lwyfannau amrywiol yn bersonol ac ar-lein.

Amlinellodd fod y defnydd o'r gwasanaeth yn cynyddu'n gyson yn dilyn y pandemig a'r cyfyngiadau symud amrywiol.

Amlinellodd y disgwylir i Archif Ddarlledu Cymru lansio ar 11 Gorffennaf, a byddai'n ystyried trefnu ymweliad i aelodau'r pwyllgor weld y cyfleuster yn y ganolfan ddinesig maes o law.

Amlinellodd ddadansoddiad o'r ystadegau o ran o ble mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn dod, a geir drwy Gerdyn Archifau darllenwyr.

Cyfeiriodd at broblemau IT a gafwyd yn Sefydliad y Mecanyddion o ganlyniad i oedran y cyfrifiaduron yno, ac roedd rhaid prynu rhai newydd yn eu lle oherwydd problemau diogelwch posib. Dylai hwn gael ei ddatrys a dylai'r peiriannau newydd gael eu gosod yn fuan iawn.

Yn dilyn cwestiwn gan Janet Watkins ynghylch ystadegau defnydd, dywedwyd y byddai'n hapus i gynnwys nifer yr ymwelwyr i Sefydliad y Mecanyddion ar gyfer y cyfnodau lle mae'r cyfleuster ar agor ac wedi'i staffio gan wirfoddolwyr y Gymdeithas Hynafiaethwyr. Byddai'r rhain wedi cael eu cofnodi ar wahân i'r cyfnodau lle mae staff yr archifau'n bresennol o ganlyniad i reoliadau adrodd.

Trafodwyd y broblem o'r dirywiad mewn pobl sy'n dwlu ar hanes teulu yn mynd i'r Ganolfan Ddinesig a Sefydliad y Mecanyddion yn ogystal â'r ffactorau sy'n effeithio ar y broblem.

<u>Allgymorth a Gweithgarwch Addysgol</u>

Cyfeiriodd at adroddiad blynyddol y gwasanaeth a gyhoeddwyd ar-lein ar ddiwedd mis Mai.

Gellir dod o hyd iddo yn
https://www.abertawe.gov.uk/adroddiadblynyddolarchifyddysir

Amlinellwyd nifer yr ysgolion y darparwyd sesiynau addysgol iddynt gan staff.

Cynhaliwyd nifer o sesiynau hefyd ar gyfer myfyrwyr Prifysgol Abertawe, a darparwyd sgyrsiau i grwpiau amrywiol gan staff yn ystod y chwarter.

Adleoli'r Archifau i Hwb Canol y Ddinas

Manylodd fod y gwaith yn parhau i fynd rhagddo ac maent yn parhau i ddatblygu dyluniad y cyfleuster newydd yng nghanol dinas Abertawe i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Safon Prydeinig 4971.

Manylodd ar fewnbwn Llywodraeth Cymru a'r ymgynghorydd allanol arbenigol Chris Woods, sydd wedi arwain at osod 2 ddarn o gyfarpar ychwanegol, yn benodol un i gael gwared ar ormodedd o leithder ac un arall o gwmpas system oeri awtomatig.

Cyfeiriodd at y broses achrediad y bydd rhaid i'r gwasanaeth fynd drwyddi yn y cyfleuster newydd a manylwyd arni.

Staff

Amlinellodd fod y gwasanaeth wedi colli 2 aelod o staff yn ystod y misoedd diwethaf, sydd wedi effeithio ar ei allu i ddarparu gwasanaeth llawn yn Abertawe a Chastell-nedd.

Amlinellodd fod y broses o recriwtio staff newydd yn lle staff sydd wedi gadael yn barhaus.

Cyfarfodydd a Hyfforddiant Proffesiynol

Amlinellodd y gwahanol grwpiau proffesiynol a chyfarfodydd yr oedd wedi bod yn bresennol ynddynt yn ystod y chwarter.

Mynediad at Gasgliadau’r Archifau

Manylodd ar yr archifau amrywiol a dderbyniwyd gan y gwasanaeth yn ystod y chwarter.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.47 am

**Cadeirydd**